



Delfryn  
Llwynpiod  
Llangeitho  
Tregaron  
Ceredigion  
SY25 6TA

*Ffôn/Tel:* 01974 298 367  
*Ffacs/Fax:* 01974 298 089  
*E-bost/E-mail:* [clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk](mailto:clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk)  
*Ffôn symudol/mobile:* 07929 970 547

**CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON TOWN COUNCIL MEETING**  
**NOS WENER/FRIDAY 13 EBRILL/APRIL 2018 @ 7.30 yh/pm**  
**YN Y NEUADD GOFFA/IN THE MEMORIAL HALL**

**COFNODION CYFARFOD EBRILL 2018 / MINUTES OF APRIL 2018 MEETING**

1. **CROESO / WELCOME**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol.  
*The chairperson welcomed everyone to the meeting.*

**PRESENNOL / PRESENT:** Cyng. Gwilym Jenkins (Cadeirydd), Cyng Catherine Hughes, Ann Jones, Arwel Jones, Manon Wyn James, June Owens a Cyng Gary Rees

2. **YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:** Cyng David Bennett, Karine Davies, Alun Owen a Cyng Rhydian Wilson.

3. **MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS**

Llongyfarchiadau i'r Cyngor Tref am ennill gwobr Arfer Arloesol Blynyddol Un Llais Cymru – "Datganoli Gwasanaethau Gorau neu broseieic asedau"  
*Congratulations was extended to the Town Council for winning the Annual Innovative Practice Awards from One Voice Wales – "Best devolution of services or asset project"*

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

Neb / Nobody

5. **CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 09.03.2018**

Cynnig / Proposer: Cyng Arwel Jones  
Eilio / Seconded: Cyng Gary Rees

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES**

6.1 Diolchwyd i Cyng Manon Wyn James am ymgymryd ag arolwg diwethaf y parc ac enwebwyd Cyng Ann Jones i wneud arolwg yn wythnosol nawr am y mis i ddod.  
*Cllr Manon Wyn James was thanked for undertaking the past month's parc inspection and Cllr Ann Jones was nominated to undertake the following four weeks.*

6.2 Cyng June Owens a Cyng Gary Rees i droi'r twnnel fel bod y difrod ddim ar waelod mynediad y twnnel o fewn y mis i ddod.

6.3 Cytunwyd i ofyn i gwmmi Technoleg Taliesin i dynnu'r app cyfieithu oddi ar y gwefan gan fod o yn annerbyniol. Trafodwyd y fformat o ddsbarthu'r cofnodion bellach a chytunwyd i dreialu cofnodion a saesneg ar y cyd ar un ddogfen gan fod angen cymeradwyo'r fersiynau cyn iddynt fynd ar y gwefan. Angen gwirfoddolwr i gyfieithu'r cofnodion i'r saesneg.

6.3 Derbyniwyd cadarnhad bod Mr Eifion Davies, yn fodlon cynorthwyo efo'r gwaith o gynrychiolydd cynllun llifogydd cymunedol ac i fod yn bwynt cyswllt efo Cyfoedd Naturiol Cymru. Cyng Catherine Hughes i siarad ymhellach a Mr Davies yn dilyn cysylltiad â Lewis Baron.

6.4 Derbyniwyd cadarnhad drwy e-bost bod pwyllgor yr Eisteddfod 2020 mewn trafodaethau â'r Cyngor Sir i ddechrau negodi gyda pherchnogion y safleoedd dan sylw gan grybwyll fod yna achos cryf gan Dregaron gan gymryd y byddai'r tiroedd angenrheidiol ar gael a'r amodau yn dderbyniol.

**CADEIRYDD / CHAIRPERSON**

- 6.5 Derbyniwyd cadarnhad ar lafar oddi wrth Mr Tom Jones, Caebalcog ei fod yn bwriadu torri'r clawdd lawr o Catllyrion, Blaencaron lawr i Llainfflur yn y dyfodol agos.
- 6.6 Soniwyd bod yna 3 cais wedi rhoi gerbron y cam cyntaf yn y rhaglen Buddsoddi Adfywio Targeddi (TRIP) lle mae gan y rhaglen y potensial i ddod a buddsoddiad gwerth £7 miliwn i Ganolbarth Cymru dros y tair blynedd nesaf.  
 Cais rhif (1) Prosiect ehangu siop Rhiannon Cyf  
 Cais rhif (2) Creche/Meithrinfa ar gampws yr Ysgol Uwchradd  
 Cais rhif (3) Pwll Nofio Tregaron
- 6.7 Cadarnhad wedi'u dderbyn oddi wrth Y Comisiwn Ffiniau i dderbyn ein hymateb i ymgynghoriad 'Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion' Adroddwyd Cyng Catherine Hughes bod pwyllgor llawn y Cyngor Sir wedi pleidleisio i gadw'r drefn bresennol.
- 6.8 Derbyniwyd e-bost oddi wrth Nigel & Sue Bird yn datgan ei siom am ddiffyg cefnogaeth y Cyngor Tref yn y fenter o adfywio'r farchnad yn Nhregaron gan fod y fenter yn edrych yn un masnachol.
- 6.9 Soniwyd bod sefyllfa gadael sbwriel yn Clôs Twm Siôn Cati, y Pentre wedi gwella dipyn ond ambell i fag dal yn cael ei gadael yno. Trafodwyd y sbwriel sy'n cael ei adael oddi amgylch y dref a thu allan i'r dre yn enwedig ar y ffordd allan ar fflatiau Penbont.
- 6.10 Ms Beth Herridge wedi trefnu bod y cloddiau/coed wedi'u torri ar y ffordd lawr i Abercoed ond nid yw'r coed uchel wedi'u torri lawr.

7. **CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS**

- 7.1 Cyflog Gweithiwr Strydlun £174.10
- 7.2 Cyflog Clerc £237.60
- 7.3 HMRC £109.40
- 7.4 Clerc wedi cwblhau'r gwaith diwedd blwydd ar PAYE a'i hanfon i HMRC yn ôl y gyfraith.
- 7.5 Talwyd Neuadd Goffa £135.36 ers y cyfarfod diwethaf drwy gynnig Cyng Awel Jones ac eiliwyd gan Cyng Manon Wyn James.
- 7.6 Gan fod gofynion Archwilwyr Allanol wedi newid o ran y canllawiau, trafodwyd bancio ar-lein a chytunwyd i adael y clerch i'w drefnu, drwy ddal i gymeradwyo'r taliadau yn fisol yn ôl y drefn arferol.

Cynnig: Cyng Gary Rees

Eilio: Cyng Manon Wyn James

8. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / REPORT FROM THE STREET SCENE WORKER**

- Gweithiwr strydlun yn parhau i lanhau oddi amgylch y Dref.
- Wedi dod o hyd i'r arwydd glas TREGARON ar y ffordd mewn o Lamedd a'i ddodi ar bwys sied y mart ar gyfer y Cyngor Sir i'w ddodi nol lan.
- Angen glanhau llwybr Penddol
- Baw cŵn oddi amgylch y dre yn enwedig 'Courier Street'
- Angen ei bresenoldeb yn Pwllswyddog
- Angen i'r gweithiwr strydlun cynyddu'r oriau nawr fod y dydd yn ymestyn dipyn.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS**

- 9.1 Rhif cais: A180341  
 Ymgeisydd Mr J Rowbotham  
 Safle: Yr Adfa, Stags Head, Tregaron  
 Y Bwriad: Variation of condition 3 of planning permission A140518 occupancy condition.

Dim gwrthwynebiad

Cynnig: Cyng Arwel Jones

Eilio: Cyng Gary Rees

10. **CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED**

Dim i'w gofnodi.

11. **CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mr David Lloyd Roberts, Rheolwr Masnachol, Cyngor Sir Ceredigion am 'Perchnogion Cŵn Anghyfrifol' a chytunwyd i'r clerc ei gylchredeg a'i drafod yn y cyfarfod nesaf.

12. **UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES**

12.1 Angen dewis cynrychiolydd i fynychu pwyllgorau ardal Un Llais Cymru – cytunwyd i ddodi ar agenda'r cyfarfod nesaf.

12.2 Derbyniwyd gwybodaeth fod rheolau'r Diogelu Data Cyffredinol yn newid o 25 Mai 2018 a bod angen gweithredu'r canllawiau newydd. Trafodwyd y mater ychydig ond gan fod yna ddiffyg gwybodaeth ar y canllawiau newydd cytunwyd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. Clerc wedi anfon y linc ar gyfer darllen i'r cynghorwyr eisoes.

13. **CYNLLUN LLEOEDD / PLACE PLANS**

Cynhelir cyfarfod agored ar nos Iau 24 Mai 2018 am 7yh yn y Neuadd Goffa yn Nhregaron o dan arweinyddiaeth Elin Jones AC a Ben Lake AS i drafod adfywio Tregaron lle gellir adrodd i'r cyhoedd y sefyllfa am y prosiect 'Cynllun Lleoedd / Place Plans'. Derbyniwyd 20% o'r holiadur nôl, Cyng David Bennett wrthi ar hyn o bryd yn creu adroddiad o'r ystadegau/pwyntiau a godwyd yn dilyn dychwelyd yr holiaduron.

14. **CWYNION YNGLŶN A BAW CŴN (Cyng Karine Davies) / COMPLAINTS ABOUT DOG FOUL**

Yn absenoldeb Cyng Karine Davies ni ellir trafod y pwynt yma ond soniwyd bod y Cyngor Tref wedi derbyn nifer o gwynion am y baw cŵn sydd oddi amgylch y dref a gofynnir i'r Gweithiwr Strydlun ei glanhau. Pwynt yma i'w ddodi ar agenda'r cyfarfod nesaf.

15. **EITEMAU AGENDA (Cyng Karine Davies) / AGENDA ITEMS**

Yn absenoldeb Cyng Karine Davies ni ellir trafod y pwynt yma ond fe'i rhoddwyd ar agenda'r cyfarfod nesaf.

16. **BYRDDAU HYSBYSEBU (Cyng Karine Davies) / NOTICEBOARDS**

Yn absenoldeb Cyng Karine Davies ni ellir trafod y pwynt yma ond fe'i rhoddwyd ar agenda'r cyfarfod nesaf. Soniwyd fod Cyng David Bennett a Cyng Arwel Jones yn mynd i drwsio a gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr hysbysfwrdd sydd tu allan i Siop Rhiannon Cyf.

17. **TENDRAU / TENDERS**

Derbyniwyd, trafodwyd a chytunwyd ar y tendrau canlynol ar gynnig Cyng Ann Jones ac eiliwyd gan Cyng June Owens:-

	<b><u>Eglwys Sant Caron</u></b>	<b><u>Parc Chwarae</u></b>	<b><u>Canlyniad</u></b>
<i>Dilwyn Benjamin</i>	<i>£165 y toriad</i>	<i>£40 y toriad</i>	<i>Eglwys yn unig</i>
<i>Gareth Evans</i>	<i>Dim wedi tendro</i>	<i>£40 y toriad</i>	<i>Parc Chwarae yn unig</i>

Cytunwyd i D Benjamin dorri'r Eglwys yn ôl y drefn arferol am £165 y toriad gan fynd a'r porfa oddi yno, uchafswm o 4 toriad.

Cytunwyd i G Evans dorri'r Parc Chwarae yn ôl y drefn arferol am £40 y toriad gan fynd a'r porfa oddi yno, uchafswm o 10 toriad ond 9 os oes modd yr un peth a 2017-18.

17. **GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE**

17.1 Derbyniwyd copi o 'Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2016 – Adroddiad yr Arolygydd' – Dim gweithrediad.

17.2 Cais am gymorth ariannol wedi'u dderbyn oddi wrth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Ceredigion – Dathliadau 200 mlynedd Cenhadon Neuadd-lwyd/Madagascar – dim gweithrediad.

- 17.3 E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth David & Susan Bodsworth, perchnogion coedlan Pencefn, yn cynnig cyfran o arian, os bydd peth yn weddill, i'r Dref, yn dilyn ailblannu coedlan Pencefn.
- 17.4 Derbyniwyd cadarnhad bod aelod o'r Bwrdd Iechyd yn mynychu'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar nos Wener 8 Mehefin 2018. Trafodwyd y llythyr 'Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Trawsnewid ein gwasanaeth iechyd – ymgynghoriad ar wasanaethau gofal iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda' a'r cynlluniau oedd ganddynt am ysbytai Bronglais, Caerfyrddin, Llanelli a Wityhush.
- 17.5 Yn dilyn cyfarfod cyffredinol blynyddol Whilen y Porthmyn, derbyniwyd e-bost oddi wrth Fflur Lawlor (eisoes wedi'u gylchredeg) yn sôn am waith a wnaed yn swyddfa Whilen y Porthmyn ac awgrymiadau ar gyfer dyfodol y swyddfa. Cytunwyd i wahodd Mrs Fflur Lawlor a Marie Evans, Cynnal y Cardi i'r cyfarfod nesaf am 7yh i drafod y ffordd ymlaen i weithio ar y cyd a'r swyddfa i sicrhau'r dyfodol.

18. **UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**

- 18.1 Cytunwyd i'r Clerc arddangos poster i sefydliadau geisio am gymorth ariannol.
- 18.2 Gan fod cyngerdd blynyddol Y Barcud yn Llangeitho, nos Wener 12 Mai 2018 am 7yh, sef yr un noson a chyfarfod cyffredinol blynyddol y Cyngor Tref, cytunwyd i symud y CCB nôl i'r nos Iau, 10 Mai 2018 am 7yh.
- 18.3 Soniwyd am y twll oddi amgylch gratin tu allan i Ger y Swydd, Tynberth, Clerc eisoes wedi adrodd i'r Cyngor Sir amdano.
- 18.4 Derbyniwyd gwybodaeth nad oedd clawdd Cwm Nant wedi'u dorri nol o hyd lan am Nantcoy, soniwyd am ddifrod oedd wedi digwydd i'r frigâd dân a fi'n defnyddio'r ffordd yn ddiweddar. Clerc i gysylltu â Mr Simon Crowe.
- 18.5 Bin halen/grit yn eisiau ar dop rhiw dywyll.
- 18.6 Bin halen/grit wedi dod yn rhydd o'r prennau ar waelod rhiw dywyll.
- 18.7 Derbyniwyd adroddiad ar lafar, oddi wrth PCSO John Evans, o'r digwyddiadau yn yr ardal dros y mis diwethaf.

TERFYNWYD Y PWYLLGOR / MEETING WAS CLOSED

CADEIRYDD / CHAIRPERSON